**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**14/02/2025**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir Y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr –Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor) a Joe Yates (Prifysgol Wrecsam).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Amanda Hughes (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd) Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Awdurdod Lletya - Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Sara Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru –Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Gareth Rogers (Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion – Bryn Richards a Dewi Williams (Sylwedyddion Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth y DU).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint)
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai)
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gydag Amanda Hughes yn dirprwyo
- Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio)
- Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru) gyda Bryn Richards yn dirprwyo

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard ar gyfer Eitem 10 gan ei fod yn Aelod o fwrdd Menter Môn a Menter Môn Morlais Ltd fel Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn. Nododd o’r farn ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 06 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid a Phennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2024 y Bwrdd Uchelgais.**
2. **Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais.**
3. **Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodi tanwariant a ragwelir o £205,405 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei defnyddio i leihau'r swm a hawlir o'r Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £12.51m yn 2024/25 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £24.67m ar gyfer y flwyddyn.

**TRAFODAETH**

Amcanwyd bydd tanwariant o £205,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Manylwyd ar y meysydd ble mae'r tanwariant hynny yn deillio ohono gan egluro yr amcanwyd tanwariant o £43,000 yng nghyllideb y Swyddfa Rheoli Portffolio gan gadarnhau mai'r prif reswm am hyn yw bod gwir chwyddiant cyflogau oddeutu 3% o'i gymharu â 6% a amcanwyd yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Ymhelaethwyd bod estyniad yng nghyllideb y Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd Mawrth 2025 wedi galluogi defnyddio tanwariant ar y gyllideb 'Cynlluniau' er mwyn ariannu costau tri swyddog yn hytrach na gwneud defnydd o'r gyllideb graidd. Tynnwyd sylw bod estyniad hyd at Fawrth 2025 hefyd wedi cael ei dderbyn ar y prosiect Ynni Ardal Leol a bydd y gorwariant perthnasol yn cael ei ariannu gan yr arian grant.

Eglurwyd hefyd y rhagwelwyd tanwariant o £17,000 yng nghyllideb 'Gwasanaethau Cefnogol' yn ogystal â rhagdybio tanwariant o £34,500 yn y gyllideb 'Cyd-bwyllgor'.

Adroddwyd bod gorwariant net o £181,000 i'w weld yng nghyllideb 'Prosiectau' gydag oddeutu £136,000 ohono yn orwariant ar gostau cefnogaeth gyfreithiol allanol a oedd yn allweddol ar gyfer nifer o brosiectau'r rhaglen gyfalaf. Ymhelaethwyd bod cyllideb 'Datblygu Achosion Busnes y prosiectau o fewn y gyllideb hon yn gorwario £86,000. Cadarnhawyd bod cyfraniad o £152,000 gan y gyllideb 'Prosiectau' wedi ariannu cyfran o brosiect Ynni Lleol Blaengar.

Cadarnhawyd bod prif ffrydiau incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, grant Ynni Llywodraeth Cymru, secondiad staff Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal â'r gronfa 'Prosiectau' a'r gronfa wrth gefn.

Eglurwyd bydd y gwarged o £205,000 a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau cyfraniad o'r Grant Cynllun Twf sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn hon. Cadarnhawyd bydd y cyfraniad hwn yn cael ei drosglwyddo i gyllideb 2025/26.

Mynegwyd balchder yr amcanwyd bydd cyfanswm o bron i £211,000 yn y gronfa wrth gefn cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Ymhelaethwyd nad oes arian yn y gronfa 'Prosiectau' ac amcanwyd bydd £7.2miliwn yn y gronfa llog erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Tywyswyd yr aelodau drwy ddiweddariad ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf gan nodi bod gostyngiad net o £12.16miliwn yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Pwysleisiwyd bod hyn yn deillio o lithriad ar brosiectau Ynni Lleol Blaengar, Porth Caergybi a chyn Ysbyty Gogledd Cymru yn ogystal â'r penderfyniad i dynnu prosiect Canolfan Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn ei ôl. Eglurwyd bod ffigyrau hyd at flwyddyn ariannol 2030/31 i'w gweld yn yr adroddiad ar gyfer y prosiectau Canolfan Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy ac Ynni Carbon Isel ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod arian yn cael eu clustnodi i brosiectau newydd yn y dyfodol, gan nad oes modd cadarnhau beth fyddai'r prosiectau hynny ar hyn o bryd, gan sicrhau bydd y wybodaeth hon yn cael ei adolygu yn y dyfodol i nodi pa brosiectau sydd yn derbyn yr arian a glustnodwyd yma. Tynnwyd sylw bod y gwariant ar Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn cyd-fynd gyda'r proffil cyfalaf diweddaraf.

Amlygwyd bod cynnydd yng nghostau cyfreithiol i'w weld yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan ystyried os yw'r ffioedd hyn yn debygol o barhau i gynyddu'n raddol yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y cynnydd hwn mewn ffioedd cyfreithiol eleni gan gynnwys ffioedd cwmni cyfreithiol allanol ar faterion arbenigol ynghlwm â'r prosiectau ac i ariannu cyflogau cyfreithwyr dros dro. Cadarnhawyd y gobeithir i'r ffioedd hyn leihau dros y misoedd nesaf wrth i wasanaeth cyfreithiol yr Awdurdod Lletya gynnal proses recriwtio ar gyfer y rolau perthnasol. Cydnabuwyd ei fod yn bosib bydd ffioedd cyfreithiol yn parhau i gynyddu i'r dyfodol wrth i'r angen godi i gefnogi niferoedd uwch o achosion busnes prosiectau fel maent yn cael eu cymeradwyo.

## 6. PENODI SRO Y CYNLLUN TWF AC AELODAU ARWEINIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Portffolio.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cytuno i'r egwyddor y dylid gwahanu rolau'r Uwch Berchennog Cyfrifol a Chyfarwyddwr Portffolio (yn amodol ar gyngor Adnoddau Dynol) a'u cyflawni gan wahanol unigolion a nodi'r rhaniad arfaethedig o ddyletswyddau a chyfrifoldebau.**
2. **Gofyn am enwebiad gan un o chwe Phrif Weithredwr yr awdurdodau lleol i weithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r bwriad o gadarnhau'r penodiad hwn yn y cyfarfod nesaf, sydd wedi ei raglennu ar gyfer 4 Ebrill 2025.**
3. **Cytuno ar y newidiadau i gyfrifoldebau Aelodau Arweiniol ar draws y Cynllun Twf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i wahanu rôl yr SRO a Chyfarwyddwr Portffolio mewn ymateb i'r gofyniad newydd gan y llywodraeth.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cyflwyno addasiadau i strwythur llywodraethiant Cynllun Twf Gogledd Cymru, yn dilyn arweiniad y Llywodraethau i wahanu rolau'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO). Atgoffwyd bod yr holl gyfrifoldebau hyn wedi cael eu cyflawni gan y Cyfarwyddwr Portffolio presennol ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod arweiniad y Llywodraethau yn ei gwneud yn ofynnol i ddau unigolyn gwahanol fod yn cyflawni'r rolau hyn er mwyn cynyddu atebolrwydd a darparu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol.

Gofynnwyd am enwebiad ffurfiol i un o Brif Weithredwyr yr awdurdodau lleol weithredu fel yr SRO ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru er mwyn gallu cynnal pleidlais ffurfiol ar yr enwebiad hwnnw yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd hwn.

Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar Rolau penodol yr Aelodau Arweiniol, gan atgoffa bod pump o'r Arweinwyr yn gyfrifol am un o feysydd rhaglenni'r Cynllun Twf er mwyn darparu cysylltiad rhwng y Bwrdd Uchelgais a Byrddau'r Rhaglenni. Eglurwyd na fyddai'r Cadeirydd yn gyfrifol am raglen benodol yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar faterion strategol cyffredinol, gyda'r Rolau Arweiniol yn cael eu dosbarthu i'r pum Arweinydd arall. Tynnwyd sylw bod addasiadau i aelodaeth y Bwrdd yn y flwyddyn ddiwethaf a chynigwyd penodiadau newydd i Rolau Arweiniol Rhaglenni'r Cynllun Twf fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Mark Pritchard - Materion strategol cyflawni'r Cynllun Twf
- Y Cynghorydd Charlie McCoubrey – Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Y Cynghorydd Dave Hughes –Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch
- Y Cynghorydd Jason McLellan – Rhaglen Tir ac Eiddo
- Y Cynghorydd Gary Pritchard – Rhaglen Ynni Carbon Isel
- Y Cynghorydd Nia Jeffreys –Y Rhaglen Ddigidol.

Manylwyd nad oes newid i'r Aelod Arweiniol ar gyfer Rhaglenni Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon isel er mwyn sicrhau parhad yn y gwaith mae'r Aelodau wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Eglurwyd bod y penderfyniad wedi cael ei wneud i gynnig y Rhaglen Ddigidol i Aelod Arweiniol Cyngor Gwynedd oherwydd y diffygion ac anawsterau cyswllt digidol sydd yn yr ardal honno. Tynnwyd sylw y golyga hyn bod y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch wedi cael ei nodi ar gyfer yr Aelod Arweiniol Cyngor Sir y Fflint. Ymddiheurwyd am y diffyg cyfathrebu i egluro'r rhesymeg wrth lunio'r cynigion ar gyfer y penodiadau newydd yma, gan groesawu sgyrsiau pellach i drafod y Rhaglenni gydag unrhyw Aelod sydd yn dymuno hynny.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau nad oes disgwyliad i unrhyw addasiad pellach gael ei wneud i'r materion llywodraethiant a drafodwyd, wrth i'r Bwrdd symud i fod yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

## 7. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid a Phennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw 2025/26.**
2. **Cymeradwyo'r cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.**
3. **Cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf.**

**4. Cymeradwyo trosglwyddo'r llog a dderbyniwyd ar falansau grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn 2024/25 a 2025/26 i gronfa wrth gefn penodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth, cadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol yn ogystal â chostau datblygu prosiectau.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

Mae Atodiad 1 yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod prif gyllideb y Swyddfa Rheoli Portffolio yn ariannu 22.75 o swyddi, gan nodi bod dwy o'r swyddi hynny yn swyddi ychwanegol penodol i brosiectau Digidol ac Ynni Lleol Blaengar. Nodwyd hefyd bod cyllideb wedi cael eu gosod ar gyfer dau gyfarwyddwr anweithredol a gweithiwr proffesiynol rheoli portffolio er mwyn adlewyrchu gofynion y ddwy lywodraeth. Yn debyg, eglurwyd cyllidebau, costau a chyfraniadau llog ar gyfer materion Gwasanaethau Cefnogol, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Prosiectau a Throsglwyddiadau i gronfeydd.

Tynnwyd sylw bod cyfraniadau ariannol gan bartneriaid wedi codi 1.5% er mwyn adlewyrchu chwyddiant alldro 2024/25, lwfans ar gyfer newidiadau yn nhrothwy a chanran yswiriant gwladol ac amcan chwyddiant cyflogau 2025/26. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod cyfraniadau atodol gan yr Awdurdodau Lleol wedi parhau i fod yn £40,000 yr un.

Tywyswyd yr aelodau drwy rhai o gyfraniadau ariannol gan gadarnhau:

- Bod cyfanswm y Grant Cynllun Twf o £1.35miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer gwariant refeniw.
- Neilltuwyd £116,000 o brosiectau Digidol ac Ynni Lleol Blaengar i ariannu dwy swydd benodol.
- Cyfalafwyd £60,000 ar gostau staff wrth iddynt wneud gwaith penodol ar brosiectau.
- Ariannir swyddi llywodraeth ychwanegol a chostau datblygu prosiectau drwy £412,000 o'r Gronfa Llog.
- Clustnodwyd oddeutu £61,000 o'r Gronfa wrth gefn, gan sicrhau bod £150,000 yn parhau yn y gronfa honno.

Darparwyd crynodeb o'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn ogystal â chyllidebau drafft ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/27 a 2027/28. Eglurwyd bod y swyddi llywodraeth ychwanegol, estyniad ar gytundebau staff hyd Fawrth 2028 a rhai o gostau datblygu'r prosiectau yn cael eu hariannu gan y llog a fydd yn cael ei dderbyn ar falansau'r Cynllun Twf ym mlynyddoedd ariannol 2024/25 ac 2025/26. Amcangyfrifwyd bydd cyfanswm costau dros y tair blynedd ariannol yma yn £2.7miliwn. Cadarnhawyd bydd y £3.6miliwn o log a dderbyniwyd hyd at 2023/24 yn parhau i gael ei ddefnyddio i leihau unrhyw gostau benthyca yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y gyllideb cyfalaf gan nodi y bydd yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo. Rhannwyd proffil am y cyfnod 2021/22 i 2034/35 yn ogystal â'r 2.15% o'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod.

Diolchwyd i holl bartneriaid am eu cydweithrediad er mwyn sicrhau bod gofynion Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig o gyflwyno rôl Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO), yn cael eu hariannu'n amserol. Mynegwyd pryder o gymeradwyo'r adroddiad hwn gan fod

posibilrwydd i gostau ariannu'r SRO gynyddu gan y Llywodraethau, gan achosi diwygiadau i’r cyllidebau. Mewn ymateb i’r ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch-swyddog Gweithrediadau y byddai rôl yr SRO yn cael ei ariannu o gyllidebau’r prosiectau Digidol a’r Ynni Lleol Blaengar wrth iddynt ddod yn weithredol, gan gadarnhau eu bod yn cael eu hariannu gan y prosiectau heb beri risg ariannol ychwanegol i’r Bwrdd.

**8. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHARTER 3**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Portffolio.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi’i diweddaru.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd â phwyllgorau craffu’r awdurdodau lleol.**
3. **Gofyn i’r Swyddfa Rheoli Portffolio am adroddiad pellach ar brosiectau y rhagwelir na fydd yn bosib eu cyflawni o fewn eu hamserlenni arfaethedig, yn y cyfarfod nesaf y Bwrdd sydd wedi ei raglennu ar gyfer 4 Ebrill 2025.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu’r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar nifer o ddigwyddiadau a fu’n uchafbwyntiau dros y misoedd diwethaf megis cymeradwyo ceisiadau am newid ac Achosion Busnes Amlinellol, cynnydd da mewn adeiladu ac adnewyddu safleoedd, penodi ymgynghorwyr Umi ac WCVA i ddatblygu prosiectau, derbyn ymatebion gwerthfawr i ymgynghoriadau a chychwyn ar waith ymgysylltu ar gyfer prosiectau newydd.

Tynnwyd sylw bod chwe phrosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd gan gynnwys:

- Cysylltu'r Ychydig % Olaf
- NEW – H2
- Trawsfynydd
- Porth Caergybi
- Stiwdio Kinmel
- Hwb Economi Wledig Glynllifon

Cadarnhawyd bod y Gofrestr Risg yn parhau yn gyson i’r hyn a welwyd yn ail chwarter 2024/25. Ymhelaethwyd bod risg gweddilliol ar fuddsoddiad sector gyhoeddus wedi gostwng o ganlyniad i Achosion Busnes Llawn dan arweiniad noddwyr y sector gyhoeddus, gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd hwn yn ddiweddar.

Gofynnwyd am adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar ddiweddariad pellach ar y prosiectau hynny nad yw swyddogion yn credu bod modd eu cyflawni o fewn eu hamserlenni arfaethedig.

Diolchwyd i bartneriaid ac asiantaethau allanol am eu cydweithrediaeth er mwyn ymdrechu i ganfod ffyrdd o ddatblygu'r prosiectau hyn, yn enwedig ar brosiectau Porth Caergybi a Hwb Hydrogen Caergybi.

Heriwyd statws perfformiad 'Cyfathrebu ac Ymgysylltu' o fewn y Gofrestr Risg, gan dynnu sylw ei fod yn perfformio'n wyrdd ar hyn o bryd. Manylwyd ei fod yn cyfeirio at ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol a'r wefan ac ystyriwyd beth yw'r cyfathrebu gwirioneddol wrth ystyried os yw trigolion Gogledd Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd a gwaith y Bwrdd Uchelgais. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau bod gwaith ymgysylltu a chyfathrebu trylwyr yn cael ei gyflawni megis drwy ddigwyddiadau, podlediadau a'r cyfryngau cymdeithasol gan nodi bod hyn yn cael ei gydbwyso yn ofalus gyda gwaith y Bwrdd. Cydnabuwyd bod capasiti ac argaeledd yn her wrth ystyried cyflawni mwy o ddyletswyddau yn y maes yma ac felly bod partneriaid hefyd yn cydweithio i hyrwyddo gwaith y Bwrdd. Teimlwyd bod dealltwriaeth y cyhoedd am waith y Bwrdd wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf gan bwysleisio y bydd yn parhau i wella wrth gyflawni mwy o brosiectau yn y dyfodol.

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitemau 10-13 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

## 10. CYDNERTH – ACHOS BUSNES TERFYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net (Hydrogen).

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer prosiect Cydnerth sy'n ddarostyngedig i Fenter Môn Morlais Ltd yn mynd i'r afael â'r materion sydd angen gweithredu arnynt a nodir yn yr adroddiad.**
2. **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ac ymrwymo i gytundeb cyllido gyda Menter Môn Morlais Ltd er mwyn cyflawni'r prosiect.**
3. **Nodi bod y model cyllido arfaethedig ar gyfer y prosiect yn fenthyciad masnachol 100% ac yn cymeradwyo bod y llog o'r benthyciad, unwaith y bydd cost taliadau benthyca ar gyfer yr elfen benthyciad wedi'i dalu, yn cael ei ddyrannu i gronfa wrth gefn i'w defnyddio i gyllido'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn y blynyddoedd i ddod.**
4. **Gofyn am adroddiad diweddariad ar gynnydd y prosiect ymhen 6 mis gyda manylion pellach am ffioedd, cyllidebau ac amserlenni.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i Achos Busnes Terfynol ar gyfer y prosiect Cydnerth.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 11. ACHOS BUSNES LLAWN PARC BRYN CEGIN, BANGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin.**
2. **Cadarnhau'r awdurdod dirprwyedig a wnaed ar 6 Rhagfyr 2024 i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gymeradwyo ac ymrwymo i'r Cytundeb Cyd-fenter.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Portffolio i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Parc Bryn Cegin.

Cymeradwyodd y Bwrdd Achos Busnes Amlinellol y prosiect ar 6 Rhagfyr 2024. Mae'r Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo a'r Bwrdd Portffolio wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ym mis Ionawr 2025.

Gan nad oes cytundeb ariannu grant ar gyfer y prosiect hwn, bydd y Cyd-fenter yn gweithredu fel cytundeb cyfreithiol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 12. ANTURIAETHAU CYFRIFOL – ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Anturiaethau Gyfrifol, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgymerwyd â hi, yn ogystal â Zip World yn ymdrin â'r materion a osodwyd yn yr Adroddiad.**
2. **Gofyn am adroddiad pellach i gyfarch tri pryder penodol cyn gwahodd Cynllun Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol, a gwahodd y cwmni i gyfarch y rhain o fewn cyfnod o 3 mis; yn benodol:**
    - **Darparu Cynllun Buddion Lleol wedi datblygu yn dilyn ymgysylltu gyda'r cymunedau lleol;**
    - **Paratoi Strategaeth ac egwyddorion gweithrediadol i'r e-fws;**
    - **Darparu Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu**
3. **Dirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol o'r manylebau caffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro cyn dechrau caffael.**

4. **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn, i'w cymeradwyo gan y bwrdd Uchelgais Economaidd fel sail ar gyfer y trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn ffurfiol sail y Llythyr Cynnig Grant a gaiff ei gytuno gan y Bwrdd ar y cam Achos Busnes Llawn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Anturiaethau Cyfrifol

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 13. CAIS AM NEWID Y PROSIECT HWB ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cytuno i'r cais am newid ar gyfer y prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac yn ddarostyngedig i'r materion sy'n weddill, gofyn i Grŵp Llandrillo Menai ymgymryd â'r gweithgaredd angenrheidiol i gyflwyno'r achosion busnes perthnasol i'w hystyried.**
2. **Cadarnhau y bydd sgôp diwygiedig y prosiect yn cael ei gyflawni o fewn y dyraniad cyllid presennol ar gyfer y prosiect ac na fydd unrhyw gyllid pellach ar gyfer y prosiect yn cael ei ddarparu o'r Cynllun Twf o ganlyniad i'r newid hwn.**
3. **Cefnogi'r egwyddor o ystyried prosiect ar wahân yn y dyfodol ar gyfer cyflawni'r deoryddion a gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio barhau i drafod gyda phartïon sydd â diddordeb i archwilio'r opsiwn hwn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y cais am newid y prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 12:30yb.

Cadeirydd